/Ionawr 2009
Cylchlythyr Chwarterol
Eglwys Bresbyteraidd Cymru

www.ebcpcw.org.uk

Rhwyd-waith rhifyn 05

TROBWYNT I'R EFENGYL?

Mae plant Llŷn ac Eifionnydd yn dod i adnabod Iesu'n well, diolch i gynllun sy'n cyflogi dau weithiwr Cristnogol ifanc.

Mae **Trobwynt** yn elusen sy'n ceisio rhannu'r ffydd Gristnogol gydag ieuenctid Llŷn ac Eifionnydd, drwy gydweithio ag eglwysi, ysgolion a chymunedau lleol.

John a Rachel Settatree, cwpl ifanc priod, yw gweithwyr Trobwynt. Mae Rachel, sydd yn wreiddiol o Fynytho ym Mhen Llŷn, yn gweithio i'r elusen ers bron i bedair blynedd, ac mae John bellach ar ei ail flwyddyn.

Mae'r gwaith y ddau yn eang ac yn amrywiol. Rhan bwysig o'u gwaith yw helpu i sefydlu CIC – Clwb Ieuenctid Cristnogol – mewn pentrefi ar hyd a lled Llŷn ac Eifionnydd. Mae Rachel hefyd yn cynnal sesiynau addysg grefyddol ac addysg bersonol a chymdeithasol mewn ysgolion lleol.

"Dwi'n ymweld â bron pob ysgol gynradd yn yr ardal," meddai, "a dwi'n mynd mynd i ysgolion uwchradd Botwnnog, Pwllheli a Phorthmadog hefyd. Mae'r plant yn ymateb yn dda i rywun ifanc yn dod atyn nhw i sôn am ei ffydd."

"Dwi 'di siarad efo nhw am bethau fel ewthanasia hefyd. Ma'n dda achos dwi ddim yn gorfod bod yn hollol niwtral – ga'i sôn am y peth o safbwynt Cristnogol. 'Da ni rŵan yn trio creu cyswllt rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd fel bo ni'n cadw cysylltiad efo'r plant wrth iddyn nhw symud i'r ysgol uwchradd."

Hybu a hyrwyddo yw amcan Trobwynt – helpu eglwysi a chymunedau i sefydlu clybiau a gweithgareddau Cristnogol. Ond yn ôl Rachel, mae'n bwysig bod y gweithgarwch yn gallu parhau petai Trobwynt yn peidio â bod.

"Elusen ydi Trobwynt a da ni'n ddibynnol ar gael arian o lefydd eraill. Ond os ydan ni'n mynd, da ni isio i'r gwaith barhau," meddai. "Mae CIC Chwilog yn rhedeg hebddo' ni rwan, a da ni'n gobeithio bydd hyn yn gallu digwydd mewn llefydd eraill hefyd."

MAE YNA GEFNOGAETH AR GAEL

Gall llwyddiant Trobwynt ymddangos yn bell iawn o gyrraedd y rhan fwyaf o eglwysi Cymru. Ond yn ôl Gwyn Rhydderch, un o ymddiriedolwyr elusen Trobwynt a Chyfarwyddwr Gwasanaeth Plant ac Ieuenctid Eglwys Bresbyteraidd Cymru, mae cymorth ar gael i unrhywrai sydd eisiau hybu'r efengyl yn eu hardal.

"Mae Trobwynt yn anenwadol ond yn gweithio o fewn a chyda'r enwadau yn yr ardal," meddai. "Ar yr ochr ariannol, mae yna gefnogaeth ar gael i bethau fel hyn. Er enghraifft, mae Ymddiriedolaeth Pantyfedwen yn cynnig cymorth ariannol hael i brosiectau fel Trobwynt am y tair blynedd gyntaf, cyn belled bod yna elfen ecwmenaidd."

"Mae Trobwynt yn ei chweched blwyddyn rŵan, ac mae'n rhaid i ni ffeindio'r arian ein hunain bellach. Ond mae Duw wedi bod yn dda ac mae 'na arian wedi dod o sawl cyfeiriad. 'Dw i'n barod iawn i ddod i helpu unrhywun sydd isio dechrau rhywbeth fel Trobwynt eu hunain."

Yn wir, mae cynllun tebyg i Trobwynt wedi dechrau yn ardal papur bro Eco'r Wyddfa. Mae Andrew, brawd John, newydd ddechrau swydd fel gweithiwr ieuenctid cynllun EFE (Efengyl i Fro'r Eco) ac ymysg pethau eraill, mae yntau wrthi yn sefydlu cysylltiadau â'r ysgolion lleol.

DEALL ANGHENION PLANT

Ond pam bod plant a phobl ifanc yn ymateb cystal i ymdrechion gweithwyr Trobwynt ond yn aml yn gwrthod mynd i'r capel? Efallai gan bod John a Rachel wir yn deall anghenion pobl ifanc.

"Da ni 'di dechrau peth o'r enw Cyswllt yn ei tŷ ni," meddai John. "Mae o ar gyfer pobl ifanc hŷn, y rhai sy'n rhy hen i fynd i ysgol Sul! Da ni'n cynnal hwnnw bob bythefnos, yn Gymraeg a Saesneg bob yn ail. Hefyd bob hanner tymor da ni'n helpu grŵp lleol Souled Out Cymru yng Nghapel y Drindod ym Mhwllheli."

"Dwi'n trefnu penwsnos harddwch ar gyfer merched yng Ngholeg y Bala" ychwanega Rachel. "Mi fyddwn ni'n cael manicure a massage ac ati! Ond mi fyddwn ni'n dysgu am Iesu hefyd."

Ac ar gyfer y bechgyn? Pêl-droed! Roedd twrnament 5-bob ochr Trobwynt ar gyfer bechgyn blwyddyn 7-9 y llynedd yn llwyddiant mawr. "Roedd 'na 60 o hogia, efo timau o ysgolion a dim jyst o CIC," meddai John, "a gawsom ni neges am Iesu cyn cyflwyno'r gwpan."

"Mae'n haws weithiau i bobl ifanc wneud pethau da yn hytrach na trio esbonio i'w ffrindiau pam bo nhw'n Gristnogion. I mi, y brif neges ydi bod ffydd yn Iesu Grist yn gallu newid y byd o'ch cwmpas."

// "Lluniau uchod: John a Rachel, yn noson Honco Bonco Clwb Ieuenctid Cristnogol Morfa Nefyn"

WYNEB NEWYDD EGLWYSI HEDDIW

Mae un o eglwysi Caerdydd yn manteisio ar dechnoleg fodern i gysylltu â'i haelodau ac i ddenu sylw at ei gwaith.

Mae capel Salem, Treganna, newydd lansio gwefan newydd ac mae gan y capel dudalen ar Facebook, y wefan gymdeithasu fyd-eang.

Lansiwyd y wefan a'r dudalen facebook fel rhan o wasanaeth ym mis Tachwedd. "Thema'r gwasanaeth oedd cenhadu, a defnyddio ffyrdd newydd o gyfathrebu i wneud hynny," meddai Evan Morgan, y bugail. "Naethom ni roi lluniau o'r tudalennau gwe newydd ar Powerpoint i ddangos i'r aelodau sut mae nhw'n edrych."

Mae dros hanner cant o aelodau a chyfeillion y capel yn aelodau o grŵp Salem ar Facebook, y mwyafrif llethol yn bobl ifanc.

Ymysg eglwysi eraill sydd â thudalen Facebook mae capel Bethesda, yr Wyddgrug, a chapel Bethel, Lerpwl. Gall unrhywun greu tudalen mewn llai na munud, ac mae'n ffordd wych i aelodau a chyn-aelodau gymdeithasu ar y we a chael gwybod beth sy'n digwydd!

// Mae dros ddeugain o eglwysi Eglwys Bresbyteraidd Cymru â gwefannau – oes gwefan gan eich eglwys chi?

// www.facebook.com / www.capelsalem.org

GRAS DUW YW'R NOD

Munud i Feddwl gyda Phylip Jones, Llywydd y Gymdeithasfa yn y De

Yn yr Oriel Amaethyddol yn Sain Ffagan y mae llyfr bach i'w weld. Mae'r llyfr bach o ddiddordeb i fi. Hen lyfr ydyw gydag enwau ffermydd fy ardal i, Cwm Nedd ynddo. Gyferbyn ag enw pob fferm mae llun o nod clust defaid y fferm. Y mae nod pob fferm yn wahanol ac wrth y nod yr oedd adnabod y defaid.

Canodd Thomas Levi, "Dyro arnom ni dy nod, Ac i'th gorlan gad i'n ddod."

Beth yw'r nod sydd ar ddefaid y Bugail da?

'Does dim rhaid i ni bendroni, mae wedi dweud wrthym. Y nod yw bod yn dlawd yn yr ysbryd; bod yn alarus am y pechod ynom; bod yn addfwyn, sef yn hawdd ein trin gan Dduw; bod yn newynog a sychedig am gyfiawnder Duw yng Nghrist.

Nid rhinweddau naturiol mo'r rhain, ond effaith gras Duw yn yr Efengyl.

Dyma'r gras sydd yn newid dyn yn sylfaenol – "...gwnaethpwyd pob peth yn newydd" (Datguddiad 21:5). Gras Duw sydd yn gwneud un yn oleuni'r byd trwy adlewyrchu gwir Oleuni'r byd, Iesu Grist. Trwy'r gras hwn mae un yn halen y ddaear, yn atal llygredigaeth y byd wrth fyw yng Nghrist. Dyma'r gras sy'n galluogi un i wasgaru perarogl Crist wrth i ffrwyth yr Ysbryd Glân gael ei amlygu ynom.

Clywir llawer o sôn am yr angen i dystiolaethu i'r Ffydd heddiw. Rhaid yn wir fanteisio ar bob cyfle i gyflwyno'r neges a roddodd Duw unwaith i'r saint, a mynegi yn ein bywyd rinweddau'r Hwn a'n carodd ac a roddodd ei hun drosom, Iesu Grist. Nid yr hyn a ddywedwn, na chwaith yr hyn a wnawn yw'r dystiolaeth uchaf, ond yr hyn ydym trwy ras Duw.

"O! Dduw, rho im adnabod
Ar f'ysbryd ôl dy law,
Cans dyna'r nod a'r ddelw
Arddelir ddydd a ddaw."

Ieuenctid a swyddogion yr Eglwys yn cyfarfod i drafod ei dyfodol

YMLAEN I'R DYFODOL

Pwy yw dyfodol Eglwys Bresbyteraidd Cymru? Plant a phobl ifanc, wrth gwrs.

Ond ydy pobl ifanc yr Eglwys yn credu bod ganddi ddyfodol? Ydyn! Ond rhaid i'r Eglwys fod yn barod i addasu er mwyn cyfarfod anghenion cenedlaethau'r dyfodol.

Cafodd rhai o bobl ifanc yr Eglwys gyfle i ddweud eu dweud mewn cyfarfod gyda swyddogion yr Eglwys yn Aberystwyth yn ddiweddar. Roedd y weinidogaeth a'r berthynas rhwng yr ieuenctid a'r aelodau hŷn ar frig yr agenda.

"Mi gawson ni drafodaeth frwd ac aeddfed iawn," meddai Gwyn Rhydderch, sy'n gweithio gyda phobl ifanc bob dydd fel Cyfarwyddwr y Gwasanaeth Plant ac Ieuenctid. "Dwi'n teimlo bod rhaid i ni fel enwad feddwl sut ydan ni am wynebu'r dyfodol, a dwi'n meddwl bod y cyfarfod yma wedi codi cwestiynau pwysig."

Ifan Roberts, yr Ysgrifennydd Cyffredinol, oedd yn gosod yr agenda ar gyfer y cyfarfod. Holodd gwestiynau anodd, gan ofyn os oes angen i'r Eglwys symud i gyfeiriad newydd a datblygu mathau newydd o arweinyddion. Roedd yn rhaid ystyried yr ochr ariannol ac hefyd cofio cyfrifoldeb yr Eglwys tuag at ei haelodau hŷn, meddai.

Felly beth oedd ymateb y bobl ifanc i'r materion yma?

"Dwi'n meddwl ei bod hi wedi dod yn eglur bod y weinidogaeth draddodiadol ddim iddyn nhw," meddai Ifan Roberts. "Dydi gofalu am wyth neu ddeg o eglwysi ddim yn apelio."

"Ond mae nhw'n teimlad galwad i wasanaethu'r Arglwydd, ac mae rhai yn gwneud yn barod – er enghraifft, mae un yn weithiwr ieuenctid mewn capel yn Nghaerdydd. Ac mae un yn gweithio fel athro ond isio gwasanaethu eglwysi lleol heb roi'r gorau i'w waith."

"Roeddan nhw'n teimlo'r angen am hyfforddiant Beiblaidd fyddai'n eu helpu nhw i wneud hynny. Dydyn nhw ddim isio treulio tair blynedd mewn prifysgol yn astudio diwinyddiaeth ond ma nhw isio hyfforddiant ymarferol."

Hefyd ymysg y syniadau roedd cynnig cyfnodau 'profiad gwaith' o weinidogaethu ar gyfer pobl ifanc – boed yn fis, blwyddyn neu waith dros yr haf. Ac roedd angen rhoi pwyslais ar dechnoleg a chyfathrebu, yn ogystal â meddwl am syniadau newydd ar gyfer gweinidogaethau.

Felly beth nesaf?

Bydd y syniadau yma yn cael eu datblygu yn ystod 2009 ac yn cael eu trafod yn y pwyllgorau priodol. Mae fforwm i ddatblygu defnydd o dechnoleg eisoes wedi ei sefydlu a gobeithio y bydd mwy o gyfleon i bobl ifanc gael cymryd rhan ym mywyd yr eglwys cyn bo hir.

"Gallwn ymfalchïo yn y ffaith bod gennym fel enwad ieuenctid ymroddgar," meddai Gwyn Rhydderch. "Mae nhw am weld ein Harglwydd Iesu Grist yn cael ei ddyrchafu unwaith eto yn y Gymru hon."

"Dwi'n teimlo bod rhaid i ni fel enwad feddwl sut ydan ni am wynebu'r dyfodol, a dwi'n meddwl bod y cyfarfod yma wedi codi cwestiynau pwysig."

BETH ALLA'I EI WNEUD?

Mae'r materion yma yn ein heffeithio i gyd – gallwn helpu i newid pethau!

Ydych chi'n meddwl bod gan y Cynulliad ddigon o bwerau? Ai dyma'r amser i Gymru gymryd y cam nesaf tuag at bwerau deddfu llawn? Mae Eglwys Bresbyteraidd Cymru wedi galw am fwy o bwerau deddfu i Gymru ac mae wrthi yn paratoi adroddiad i'w anfon i **Gonfensiwn Cymru Gyfan**, sef fydd yn penderfynu os yw Cymru yn barod am refferendwm ar y mater. Mae'r Gonfensiwn hefyd eisiau clywed eich barn **chi** am lywodraeth a deddfu yng Nghymru.

Bydd y Gonfensiwn yn ymweld â phob ardal yng Nghymru yn ystod dechrau 2009. Mae gwybodaeth am y dewisiadau sydd ar gael ar y wefan: www.confensiwncymrugyfan.org. Gallwch anfon eich sylwadau i Gonfensiwn Cymru Gyfan, d/o Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Adeilad y Pierhead, Caerdydd CF99 1NA neu i info.convention@wales.gsi.gov.uk.

1-8 o Chwefror yw **Wythnos Tlodi a Digartrefedd 2009**, rhan o ymgyrch **Get Fair** i roi diwedd ar dlodi ym Mhrydain. Fel rhan o'r ymgyrch yma, mae Eglwys Bresbyteraidd Cymru wedi galw ar y llywodraeth i gymryd camau beiddgar i helpu tlodion ein gwlad: pensiynwyr sy'n gorfod dewis rhwng bwyta a chadw'n gynnes, teuluoedd sydd wedi colli swyddi a chartrefi, parau ifanc sydd yn methu cael llety cymdeithasol.

Ydych chi'n gwybod beth yw sefyllfa pobl dlawd a digartref eich hardal chi? Gyda mwy a mwy o bobl Cymru yn colli eu swyddi a'u cartrefi, dyma gyfle i estyn allan i'r gymuned, i gynnal gwasanaeth tlodi neu drafod y mater mewn seiat neu ysgol Sul. Gallwch lawrlwytho gwasanaeth Sul Tlodi oddi ar www.beibl.net ac mae adnoddau di-ri i'w cael yn www.actionweek.org.

"Fel y mae'r corff heb anadl yn farw, felly hefyd y mae ffydd heb weithre doedd yn farw." (Iago 2:26)

CYFARFOD Y GAPEROONS

Pwy neu beth ydi **gaperoons**?! Myfyrwyr blwyddyn gap Coleg y Bala!

Zoe Jones o Gricieth ac Eleri Jones o'r Ffôr ydi myfyrwyr 2008-09. Aeth **Rhwydwaith** i'w cyfarfod.

Rh: Zoe, ti ar dy ail flwyddyn gap yma bellach! Ydi dy waith di yn wahanol i llynedd?

Z: Ydi, dwi'n hanner is-warden a hanner blwyddyn gap. Weithia dwi'n gwneud yr un gwaith ag Eleri a weithia dwi'n gwneud gwaith efo Siân, un o'r cyd-reolwyr. Dwi'n mwynhau'r sialens. Dwi'n meddwl pan oedd Lois ac Aron [myfyrwyr eraill 2007-08] yma o'n i'n cuddio tu ôl iddyn nhw ond mae'n rhaid i fi fynd allan a bod yn fwy annibynol flwyddyn yma.

Rh: Eleri, ti yma ers tri mis. Ti'n mwynhau?

E: Ydw! Mae'n o'n dipyn gwahanol i be on i'n meddwl oedd o'n mynd i fod. Dwi di gwneud dipyn o benwythnosa' ieuenctid ac yn dechra arfer efo rheina. Dwi'n edrych 'mlaen at wneud mwy o rai plant a dwi heb neud penwythnos teuluoedd eto. Dwi'n licio gwneud penwythnosau plant – dwi'n gallu bod yn wirionach efo plant a dydy nhw'm yn cofio pwy ydw i wedyn!

Rh: Be da chi'n neud mewn wythnos arferol?

Z: Mae o'n amrywio! Dydd Llun da ni'n gneud clwb ieuenctid yn y Bala efo Capel Tegid; dydd Mawrth, gwaith yn y swyddfa; dydd Mercher 'da ni di dechrau gwneud dysgeidiaeth yn Llansannan. Dydd Iau da ni'n yr Undeb Cristnogol yn Ysgol y Berwyn a da ni'n mynd i'r Wyddgrug i neud clwb plant. A dydd Gwener – cyrsiau penwythnos a ballu. A penwythnos yma da ni'n mynd i Ruthun hefyd i neud clwb ieuenctid.

Rh: Felly pam dod yma i wneud blwyddyn gap?

E: Dwi di bod yn dod i Bala ers pan o'n fach ac o'n i'n nabod Siân ac Owain cyn i mi ddod i fan'ma. 'Mond rhyw flwyddyn cyn dod yma nes i ddod yn Gristion felly o'n i isio dod yma cyn mynd i brifysgol i osod fy ffydd ar seilia' cadarn.

Rh: Be oedd eich ffrindiau yn feddwl pan nathoch chi ddweud "dwi'n mynd i dreulio blwyddyn gap yn y Bala!"?

E: Oddan nhw'n meddwl bod o braidd yn rhyfedd. Dydy nhw ddim yn Gristnogion chwaith felly dwi'm yn meddwl bo nhw'n dallt be ydy rhoi blwyddyn i wasanaethu'r Arglwydd.

Z: Ie, ma nhw'n meddwl "Pam Bala?". Dwi'm yn meddwl bo nhw'n deall be ydi Coleg y Bala, ma nhw'n meddwl mai prifysgol neu rwbath ydi o – yn Bala! Dwi'n gorfod trio esbonio mai lle plant ac ieuenctid ydi o lle da ni'n rhannu am yr Iesu.

Rh: Mae rhai o'ch ffrindiau chi a fi yn meddwl bod Cristnogion yn ddigon rhyfedd. Be allwn ni ei wneud i newid hyn?

E: Ma'n ffrindia i jesd yn meddwl am Gristnogaeth fel rhywbeth diflas, ond dydyn nhw ddim 'di rhoi cyfle i ddod i rywbeth mwy bywiog ac anffurfiol. Falle allwn ni drio mynd allan mwy a trio targedu pobl ond mae'n anodd eu denu nhw. Ma rhaid ni ddangos fod bod yn Gristion yn rywbeth sy'n newid eich bywyd yn llwyr.

Z: Dwi'n meddwl hefo ffrindiau, ma rhaid ti ddangos bo ti ddim yn boring ac aros mewn pan ma nhw'n mynd allan. Jyst dangos bod Cristnogion yn normal a ddim jyst yn bobl yn ista mewn capel!

Rh: Be di'r rhan orau a'r rhan anoddaf o'r gwaith?

Z: Dwi'n mwynhau popeth. Mae o'n awyrgylch rili da i weithio ynddo. Codi ar ôl wicend di'r rhan anoddaf mae'n siwr! Ia - yr oriau dwi'n meddwl, mae'n anodd weithia. Ond dwi'n mwynhau bob dim rili. Dwi'n gwbod bod o'n cheesy!

Rh: Be sy wedi'ch synnu chi fwyaf?

E: Dwi'n meddwl faint o bobl ifanc Cristnogol dwi di dod i nabod, achos dwi'n dod o rywle lle does na ddim llawer o Gristnogion ifanc. Pobl sydd wirioneddol ar dân dros eu ffydd. Dwi di dod i nabod gymaint o bobl dwi'n gwbod y bydda'i dal mewn cysylltiad â nhw.

Z: Dwi di cael fy synnu efo'r gwaith sydd yn mynd ymlaen yn y capeli. Ma gan y bobl hŷn galon dros y bobl ifanc. Ma nhw'n trio gwneud newidiadau.

Rh: Be da chi wedi ddysgu fwyaf yma?

Z: I fi, trystio yn Nuw. Be bynnag sy'n mynd ymlaen yn y coleg neu yn fy mywyd, mae o'n digwydd am reswm. Dwi'n meddwl nath hynna daro fi ar ôl y ddamwain [pryd y lladdwyd Siôn Ifan, gweithiwr ieuenctid, yn y coleg] – bod Duw in control o bob dim. Os dwi'n teimlo'n lousy neu be bynnag, mae Duw am fod yno i fy helpu.

E: Yr un peth, i ymddiried yn Nuw ond hefyd gwbod i'w drystio fo efo pob dim. Trio cael arweiniad gan Dduw i wneud pethau yn lle trio gwneud petha fy hun.

Wyt ti awydd bod yn gaperoon? I ddarganfod mwy, cysyllta â Delyth Williams ar 01678 520 565.

Criw o Goleg y Bala yn noson Worship Central ym Mirmingham

Eleri (llun uchaf) a Zoe (uchod)

WORSHIP CENTRAL

Yn ddiweddar, cefais y fraint o gael mynychu noson wefreiddiol o addoliad bywiog ym Mirmingham. Fe agorodd Duw fy llygaid y noson yma, gan fy atgoffa o wirioneddau syml ond hanfodol bywyd Cristnogol.

Wrth i ni gyrraedd Eglwys St. John's, Harborne, roedd yr awyrgylch yn anhygoel ac roedd yn amlwg ei bod am fod yn noson wefreiddiol. Roedd agosatrwydd pawb at ei gilydd yn amlwg, a phawb yno ar dân i addoli Duw.

Yn ystod y noson cawsom sgyrsiau gan Tim Hughes ac Al Gordon. Wrth iddynt siarad cafodd pawb eu bendithio'n fawr yn eu ffordd eu hunain. Y peth ddaru fy nharo i fwya' am y sgwrs oedd yr angerdd a'r dyfalbarhad y dylem ei gael ymhob agwedd o'n bywydau a'n gwaith. Er cymaint rydym ni fel bodau dynol eisiau bod yn llwyddiannus ac eisiau'r gorau i ni'n hunain, dylem ni fel Cristnogion wneud popeth drwy gariad pur, a bod yn barod i roi cyfleoedd i eraill lwyddo.

Trwy hyn, cefais fy atgoffa fod gan Dduw amser a chynllun i bopeth yn ein bywydau – ac ond i ni ymddiried ynddo, fe wnaiff yn siŵr ein bod yn cael llwyddiant yn yr hyn mae o eisiau i ni ei wneud.

Yn ogystal, cawsom amser i addoli Duw ar gân ac ymateb i'w air yn ein gweddiau. Roedd yn wefr arbennig cael dod gerbron Duw a teimlo'r rhyddid i'w addoli mewn ffordd bersonol yng nghanol torf mor fawr. Sylweddolais y dylem addoli ar gân gyda'r un angerdd ymhob gwasanaeth, nid dim ond pan rydym yng nghanol cymaint o bobl, a dylem wirioneddol roi ystyriaeth i'r geiriau wrth addoli Duw yn hytrach na'u hadrodd yn llafurus.

Yn sicr, roedd y noson yma o addoli Duw gyda chymaint o fwrlwm ac angerdd yn fythgofiadwy, a chefais y sicrwydd wrth ddod yn ôl i'r Bala fod Duw ar waith yn ein bywydau pob dydd, a bod popeth rydym yn ei wneud er mwyn gogoniant i'w enw Ef.

Eleri Jones

Rhai o Angylion Stryd Llandudno yn paratoi i gerdded y strydoedd (llun: North Wales Weekly News)

DYDDIADUR

Chwefror

1-8 Wythnos Tlodi a Digartrefedd

5 Lansiad BARA, Cynhadledd Cyfiawnder Troseddol Gogledd Cymru

6 Cwrs Ieuenctid – Coleg y Bala

23-8 Pythefnos Masnach Deg

Mawrth

1 Dydd Gwyl Ddewi a darlledu 'The Big Questions' (BBC1) yn fyw o Gaerdydd

16-3 Hanes y Pasg i Ysgolion Cynradd – Coleg y Bala

Mae mwy o fanylion am ddigwyddiadau ar ein gwefan: www.ebcpcw.org.uk

SYLWADAU? NEWYDDION? HYSBYSEBION?

Rhowch wybod!

Eglwys Bresbyteraidd Cymru, 81 Heol Merthyr, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd, CF14 1DD
02920 627465

swyddfa.office@ebcpcw.org.uk

PIGION Y NADOLIG

Beth ddigwyddodd yn eich eglwys chi dros y Nadolig? Dyma hanesion Nadoligaidd rhai o eglwysi Eglwys Bresbyteraidd Cymru...

Mae drama'r Geni yn boblogaidd bob blwyddyn, a doedd 2008 ddim yn eithriad. Manteisiodd ysgol Sul **Capel y Garn, Bow Street,** ar batrwm yr oedfa yn y gyfres llyfrau ysgolion Sul "Golau ar y Gair". Ond yng **Nghapel Salem**, **Dolgellau**, aur, thus a phowdwr talc oedd gan y tri gŵr doeth, wrth i'r plant actio sgetsys oddi ar wefan www.beibl.net. Yn **Eglwys Gloddaeth Unedig**, **Llandudno**, cafwyd cyflwyniad aml-gyfrwng o ddrama Angel TV, gyda phlant, pobl ifanc a Chlwb Ieuenctid yr eglwys yn serennu.

Mae pawb yn mwynhau canu carolau, ac yn **Eglwys Bailey Street**, **Brynmawr**, cynhaliwyd bore coffi, lle cafodd ymwelwyr gyfle i fwynhau carolau a mins peis yn ogystal â gwasanaeth byr. Croesawyd cynulleidfa fwyaf 2008 i **Eglwys Burry Green** ar Noswyl Nadolig ar gyfer gwasanaeth carolau yng ngolau canwyll. Roedd y math hwn o wasanaeth yn boblogaidd, gyda charolau yng ngolau canwyll i'w clywed hefyd yn y **Tyllgoed** ac yn **Aberhonddu**. Ym **Mhenclawdd**, cafwyd carolau yn y gerddi coffa yng nghwmni'r band pres lleol. Ac yn **Llanrwst**, daeth yr eglwysi i gyd at ei gilydd er mwyn cynnal gwasanaeth carolau ar y sgwâr, gyda Band Pres Llandudno yn cyfeilio. Yn **Eglwys Bach**, bu Clwb yr Ifanc yn canu carolau o amgylch y pentref er mwyn codi arian ar gyfer achosion da lleol.

Mae'r Nadolig yn gyfnod sy'n atgoffa pawb – boed yn Gristion neu beidio – am ddyfodiad Crist. Mae'r capel ym mhentref bychan Cheriton ar Benrhyn Gwyr yn agos iawn at y ffordd, felly gosodwyd golygfa'r preseb yn nrws y capel er mwyn tynnu sylw bobl wrth iddynt gerdded neu yrru heibio. Yn **Eglwys Bethel**, **Garden Village**, gwahoddwyd y gymuned leol i ymuno yng nghinio Nadolig y Clwb Cinio, a daeth plant yr ysgol leol yno i ganu. Ac yn yr Wyddgrug, bu cydweithio rhwng **Eglwys Bethesda** a Menter Iaith Sir Fflint wrth drefnu Plygain y Dysgwyr, a gynhaliwyd ar y nos Sul gyntaf 2009.

Roedd aelodau eglwys **Gloddaeth Unedig**, Llandudno, yn brysur iawn dros yr ŵyl. Yn ogystal â'r cyflwyniad o Angel TV a nifer o wasanaethau eraill, cynhaliwyd gwasanaeth Cristingl arbennig yng Nghanolfan Gymunedol Tŷ Hapus, a chafwyd casgliad anrhegion a theganau ar gyfer plant difreintiedig Caernarfon.

Ond roedd y gweinidog, y Parchedig Neil Kirkham, a rhai o'r aelodau, hefyd yn brysur yn bod yn Angylion Stryd yn ystod oriau mân y bore dros gyfnod y Nadolig. Mae **Angylion Stryd** yn Gristnogion sydd wedi eu hyfforddi i gerdded strydoedd trefi a dinasoedd ar nos Wener a nos Sadwrn, gan roi cyngor a chymorth i bobl sydd wedi meddwi neu mewn trybini. Maent yn rhannu pecynnau yn cynnwys larwm diogelwch, dŵr ac ati, ac yn tynnu sylw'r heddlu os oes trafferth yn datblygu. Roedd aelodau tair o eglwysi Llandudno allan yn yr oerfel am chwe noson dros y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd.

Ym mhen arall y wlad, bu aelodau **Eglwys Community House**, **Casnewydd**, hefyd yn cydweithio'n agos â'r gymuned drwy helpu mewnfudwyr sy'n byw yn lleol. "Fe gawsom ni barti ar gyfer plant y ffoaduriaid a'r ceiswyr lloches," meddai Marilyn Priday, gweithwraig rhyng-ffydd yr eglwys, "gan gynnal panto gyda grŵp tadau a phlant sy'n cyfarfod yn yr eglwys ar ddydd Sadwrn."

"Fe gawsom ni apêl teganau ar gyfer y plant, ac roeddem yn gallu rhoi bag o bethau da i bob plentyn fynd adref i'w agor ar fore Nadolig. Daeth llawer o'r anrhegion gan y gwragedd o Asia sy'n defnyddio Community House yn rheolaidd. Mae rhoi i elusennau yn un o brif egwyddorion Islam, ac mae nhw wastad yn ymateb yn hael i bob apêl."

FFYDDL@WN

Wyddoch chi bod Gwasanaeth Plant ac Ieuenctid Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn bod er mwyn gwasanaethu ein holl eglwysi – dros 700 ohonynt?

I helpu eglwysi ac ysgolion Sul i fanteisio ar y gwasanaeth hwn, cafodd cylchlythyr newydd ei lansio yn ddiweddar. Bydd **Ffyddl@wn** yn cael ei gyhoeddi bob tymor ac mae'n cynnwys digonedd o wybodaeth am adnoddau newydd, digwyddiadau cenedlaethol, newyddion ac hefyd cyfweliadau gyda phlant a phobl ifanc.

Anfonir copïau yn rhad ac am ddim i ysgolion Sul a gweinidogion, a gellir ei lawrlwytho o'n gwefan hefyd. Os ydych chi'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc ond heb dderbyn copi, rhowch wybod i ni!

Y BEIBL YN Y BYD CYFOES

A yw'r Beibl yn bwysig i ni? Pam ei fod wedi mynd yn llyfr mor ddieithr heddiw? Ydi ei neges yn berthnasol i'n hoes? Sut mae deall yr amrywiaeth mawr o wahanol lenyddiaeth sydd ynddo? A oes un neges fawr yn clymu'r cyfan efo'i gilydd neu ai gwaith ofer yw chwilio am un thema gynhwysfawr?

Dyma'r math o gwestiynau a drafodwyd mewn cynhadledd undydd yn y Coleg Gwyn ym Mangor o dan nawdd y tri enwad sy'n cydweithio yno. Y siaradwr gwadd oedd Dr Eryl Wynn Davies, Adran Astudiaethau Crefydd, Prifysgol Bangor, gwr sydd wedi arbenigo ym maes y Beibl ers dros 30 mlynedd. Cafwyd agoriad clir a heriol ganddo yn nodi'r anawsterau sydd wrth geisio "trosglwyddo gair ddoe" i oes a byd cwbl wahanol. Yn ôl ymateb y 30 o bobl a ddaeth ynghyd nid oedd un diwrnod yn ddigon i wyntyllu'r holl gwestiynau.

Ond daeth yn hollol amlwg bod y Beibl yn berthnasol i heddiw ac yn ein herio â chwestiynau dwys ynglŷn â'r ffordd yr ydym yn trin ein hamgylchfyd, ein cyd-ddyn a'n perthynas sylfaenol â Duw.

Euros Wyn Jones, Coleg yr Annibynwyr

BAROMEDR BARN

Mae aelodau Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn credu mewn amrywiaeth eang o safbwyntiau.

Ond mae yna le i'r holl ddaliadau yma o dan y faner Bresbyteraidd, ac er bod gennym Gyffes Ffydd, nid ydym yn disgwyl i aelodau allu ticio bocsys cred. Mae "Iesu yw'r Arglwydd" yn ddigon fel rheol!

Byddai'n ddifyr gweld i ba raddau mae ein daliadau yn amrywio. Llenwch yr holiadur isod (a addaswyd o The Congregationalist) a'i ddychwelyd i'r cyfeiriad uchod.

Credaf yn y creu fel y'i disgrifir yn Genesis ☐ Credaf mewn esblygiad ☐

Credaf i Iesu gael ei eni i wyryf ☐ Nac ydw ☐

Rwy'n disgwyl 'ail-ddyfodiad' Iesu a dydd y farn ☐ Nac ydw ☐

Credaf bod y 'gwyrthiau' wedi digwydd fel y'i disgrifir ☐ Na, gellir eu hegluro mewn ffordd arall ☐

Credaf bod Iesu yn ymgnawdoliad o Dduw ☐ Na, roedd iddo ddirniadaeth ysbrydol unigryw ☐

Credaf bod Iesu wedi atgyfodi'n gorforol o'r bedd ☐ Na, mae'n rhaid bod eglurhâd arall ☐

Credaf bod y Beibl yn wir bob gair ☐ Nac ydi ☐

Credaf mewn bywyd ar ôl marwolaeth ☐ Nac ydw ☐

Credaf bod crefyddau eraill hefyd yn dderbyniol i Dduw ☐ Nac ydynt ☐

Rwy'n gweddïo..☐
yn rheolaidd ☐
yn achlysurol ☐
byth

Rwy'n flin gyda Duw gan bod cymaint o ddioddefaint yn y byd ☐ Nac ydw ☐

Enw ac eglwys (dewisol):

_____

_____

_____

_____

_____

Dylunio: www.kutchibok.co.uk